# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Hydref 2020

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, P Cockeram, G Giles, D Harvey, D Mayer, D Davies and M Rahman

Beverly Owen (Chief Executive), Tracey Brooks (Head of Regeneration, Investment and Housing), Rhys Cornwall (Strategic Director - Transformation and Corporate Centre), Sally Ann Jenkins (Strategic Director - Social Services), Gareth Price (Head of Law & Regulation) and Meirion Rushworth (Head of Finance)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Councillor R Truman

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Cynghorydd R Truman

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3 **Cofnodion y cyfarfod diweddaf**

Cofnodion y cyfarfod diweddaf
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi 2020 fel rhai cywir.

Cyn bwrw ymlaen i'r eitem nesaf ar yr agenda, manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i sôn am y clo lleol presennol, a diolch i bobl Casnewydd sy'n cydweithio'n dda ac yn dilyn y rheolau am Covid-19 i gadw eraill yn ddiogel.

4 **Adroddiad blynyddol y cynllun corfforaethol**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, sef Trydydd Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol pum-mlynedd y Cyngor.

Pwrpas yr adroddiad yw edrych yn ôl ar 2019/20 ac asesu llwyddiannau'r Cyngor, meysydd gwella, ac edrych ymlaen weddill cyfnod y Cynllun Corfforaethol.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod adroddiad eleni hefyd yn ystyried ymateb y Cyngor i Covid-19 yn erbyn pob un o Amcanion Lles y Cyngor a sut y cyfrannodd y rhain at ddysgu a datblygu Nodau Adfer Strategol y Cyngor.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ym mis Medi i Bwyllgor Craffu Trosolwg a Rheoli'r Cyngor. Croesawyd trafodaethau manwl y Pwyllgor am ymateb y Cyngor i Covid-19 a'u hadborth ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Mae argymhellion y Pwyllgor wedi eu hystyried a'u cyfoesi yn y fersiwn derfynol hon o'r adroddiad i'r Cabinet.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cabinet gadarnhau'r Adroddiad Blynyddol fel y gellir ei gyhoeddi, a bydd ar gael hefyd yn Gymraeg.

Cadarnhaodd yr Arweinydd, ar ddechrau tymor y Cabinet hwn, y gosodwyd pedwar Amcan Lles i gefnogi cenhadaeth y Cyngor o 'Wella Bywydau Pobl':

- *Gwella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd am waith;*
- *Hyrwyddo twf ac adfywio economaidd ac amddiffyn yr amgylchedd yr un pryd*
- *Galluogi pobl i fod yn iach, annibynnol a gwydn*
- *Adeiladu cymunedau cydlynus a chynaliadwy.*

Dywedodd yr adroddiad, yn 2019/20, fod Cyngor Casnewydd wedi dal ati i wneud cynnydd da yn erbyn ei Amcanion Lles, ar waeth y pwysau ariannol heriol fu ar lawer o wasanaethau rheng-flaen y Cyngor.

Ar waethaf y pwysau ariannol hyn, gallodd y Cyngor adrodd am danwariant yn y cyfrifon terfynol o £1.8m a gyfrannwyd trwy incwm grant annisgwyl i gefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor.

Fodd bynnag, yn y tymor canol, ac yn dilyn argyfwng Covid-19, mae'r Cyngor yn awr yn wynebu heriau ariannol newydd a fydd yn galw am benderfyniadau anodd yn y dyfodol.

Yn 2019/20, parhaodd Cyngor Casnewydd i wneud gwelliannau sylweddol i gyflwyno gwasanaethau a hefyd i gyflwyno mentrau allweddol fydd yn gwella bywydau pobl. Ni ellid bod wedi gwneud yr un o'r rhain heb weithio'n agos mewn partneriaeth a mudiadau eraill, y Bwrdd Iechyd a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod meysydd sydd angen eu gwella a lle bydd y Cyngor yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i gyflwyno ei wasanaethau.

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o nodi'r gwelliannau cadarnhaol isod:

- **Amcan Lles 1 (Gwella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd am waith)**

- Parhaodd ysgolion cynradd Casnewydd i wella eu perfformiad o flwyddyn i flwyddyn, a welodd gategoreiddio'r ysgolion fel 'Gwyrdd' gan Lywodraeth Cymru.
- Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella i ysgolion cynradd ac uwchradd y ddinas.
- Mae mewn mentrau i wella cyfleoedd i blant difreintiedig wedi arwain at welliannau yn eu llwyddiant academaidd.
- Mae cynnig Addysg Oedolion y Cyngor hefyd yn galluogi pobl yng Nghasnewydd i ail-hyfforddi ac ennill sgiliau newydd, sy'n rhoi mwy o gyfle am waith.
- Yr ydym yn cydnabod fod modd gwneud mwy, ac y mae Gwasanaeth Addysg y Cyngor a'r ysgolion yn gweithio'n galed i leihau anghydraddoldeb digidol, cefnogi disgyblion a phobl ifanc ddifreintiedig yn ystod y flwyddyn anodd hon.

- **Amcan Lles 2 (Hyrwyddo twf ac adfywio economaidd ac amddiffyn yr amgylchedd yr un pryd)**

- Parhau i adfywio’r ddinas trwy gefnogi a chyflwyno cynlluniau fel Gwesty’r Siartwyr, y Farchnad Dan Do, Arcêd y Farchnad, adeilad Swyddfa Post Stryd y Felin, Canolfan Ymwelwyr y Bont Gludo, ac yn awr yr Orsaf Wybodaeth.
- Cyflwyno biniau llai i aelwydydd yn y ddinas, gan gyfrannu at wella cyfraddau ailgylchu’r Cyngor a gwneud Casnewydd yn un o’r cynghorau sy’n perfformio orau yng Nghymru a’r DU.
- Ers cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil, rhoddwyd dros 19,000 o docynnau a gwelwyd gwelliant yn strydoedd y ddinas ac ymddygiad modurwyr.
- Parhau i gyflwyno gwahanol brosiectau bioamrywiaeth a gwyrdd i wella amgylchedd y ddinas. Mae hyn yn cynnwys gosod paneli solar ar draws 21 safle i dorri i lawr ar ddefnydd y Cyngor o ynni.
- I ymateb i argyfwng Covid-19, gweinyddodd Cyngor Casnewydd werth dros £19 miliwn o ryddhad ardrethi i fwy na 1,000 o fusnesau a thros £30 miliwn o grantiau busnes i 2,250 o fusnesau cymwys.

Dywedodd yr Arweinydd fod hwn yn amser anodd a heriol i economi’r ddinas, gyda chyfyngiadau Covid-19 a’r ansicrwydd am berthynas y DU gyda’r UE. Dyna pam ei bod yn bwysig cynnal economi’r ddinas a gwneud yn siŵr fod Casnewydd yn dal i ddenu buddsoddiad a chyfleoedd newydd.

**Amcan Lles 3 (Galluogi pobl i fod yn iach, annibynnol a gwydn)**

- Ar waethaf y galw cyson ar Wasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, llwyddodd y Gwasanaethau Plant ac Oedolion i arloesi a chyflwyno mentrau newydd. Diolchodd yr Arweinydd yn bersonol i’w holl gydweithwyr ar draws y cyngor mewn gofal cymdeithasol am eu hymrwymiad a’u gwasanaeth eithriadol.
- Mae menter Babi a Mi yn dangos sut y mae cydweithio gyda mudiadau fel Barnardos a dwyn i mewn ddefnyddwyr gwasanaeth yn gwella cyfleoedd a chwalu rhwystrau i bobl ifanc.
- Gall llwyddiant cyson Rose Cottage i roi sefydlogrwydd ac amgylcheddau diogel i blant eu helpu i ennyn hyder a chefnogi eu datblygiad.
- Mae tîm Cyswllt Cyntaf y Cyngor mewn Gwasanaethau Oedolion yn galluogi pobl i wybod lle i fynd at y gwasanaethau y maent eu hangen i barhau i fyw bywydau annibynnol.
- Mae cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor a gyflwynir yn Ysgol Gynradd Dewi Sant, Fourteen Locks a Choed Melyn yn rhoi dewisiadau eraill o ran teithio o gwmpas Casnewydd.
- Mabwysiadu’r Strategaeth Teithio Cynaliadwy gan Gyngor Casnewydd a’u partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn annog symud tuag at gludiant amgen/glanach, defnyddio mwy o gludiant cyhoeddus, cefnogi newidiadau i seilwaith er mwyn galluogi llwybrau diogel a hyrwyddo ymwneud ar draws ysgolion a chymunedau.
- Trwy gydol Covid-19, mae Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor wedi parhau i gyflwyno eu gwasanaethau a bu gwaith y Cysylltwyr Cymunedol a Hybiau Cymdogaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall pobl fregus gyrchu parseli bwyd a’r gefnogaeth maent ei angen.
- Yr arian newydd i gefnogi cynlluniau Teithio Llesol y ddinas ledled Casnewydd fydd yn cyfrannu at wneud Casnewydd yn fwy gwyrdd ac iachach yn y dyfodol.

**Amcan Lles 4 (Adeiladu cymunedau cydlynus a chynaliadwy)**

- Mae darparu mynediad at dai fforddiadwy a diogel o safon dda yn dal yn flaenoriaeth. Yn ystod 2019/20, cefnogodd y Cyngor gyflwyno datblygiadau tai yn Ffordd Durham, Fferm Cot a safle hen dafarn y King’s Head. Hefyd Ganolfan Adnoddau Hillside gynt, tafarn y Centurion, Llety gwarchod Cwrt Tredegar a Central View.

- Adnewyddu Hwb Cymunedol Ringland a gweithredu model y pedwar hwb yn y ddinas i roi gwasanaethau i sawl cymuned.
- Rôl grŵp Casnewydd Ddiogelach i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a darparu gweithgareddau eraill. Dwyn i mewn gymunedau lleol a thrigolion i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol a dod o hyd i atebion.
- Cyllidebu cyfranogol yn Ringland ac Alway i helpu i gefnogi gweithgareddau cymunedol trwy ddarparu grantiau. Mae pobl leol yn rhan o benderfynu pa fidiau i gael arian. Ymysg bidiau llwyddiannus yr oedd Samariaid Casnewydd, Cadlanciau Heddlu Gwent, Ringland Radio a Chlwb Bocsio Alway.
- Cefnogi cysgwyr allan a'r digartref i lety, cydweithio gyda'r Heddlu a gwasanaethau cefnogi eraill. Cefnogi pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a dod o hyd i atebion tymor hir.
- Gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gael arian i ddatblygu mwy o lety fforddiadwy.
- Cefnogi cymunedau BAME ac ymylol yr effeithiodd Covid -19 yn anghymesur arnynt. Gweithio gyda chymunedau a grwpiau lleol i gyflenwi pecynnau bwyd.
- Cynnal Asesiad Effaith Cymunedol i ddeall effaith Covid-19 a mesurau'r clo ar gymunedau yng Nghasnewydd.

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o roi'r trosolwg hwn o amrywiaeth y gweithgareddau a'r cynnydd a wnaed gan ei bod yn teimlo fod angen tynnu sylw at hyn, oherwydd ar waetha'r pandemig, cadwyd y ddinas yn ddiogel ac y mae'r Cyngor wedi cynnal gwasanaethau hanfodol ac wedi cyflawni yn erbyn y cynllun corfforaethol. Diolchodd yr Arweinydd i bawb am yr ymdrech gydweithredol hon.

Gwahoddodd yr Arweinydd Aelodau'r Cabinet i ddweud gair am yr adroddiad:

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jeavons at Amcan 2 a'r cyfraddau ailgylchu sy'n cael eu cyrraedd. Diolchodd i drigolion Casnewydd am eu hymdrechion sy'n golygu y gall Casnewydd fod yn un o'r dinasoedd gorau am ailgylchu yn y DU. Cyfeiriodd hefyd y lori sbwriel drydanol a brynwyd yn ddiweddar – y cyntaf o'i bath i unrhyw awdurdod lleol, a'r car camera allyriadau-isel-iawn – a hyn oll yn cyfrannu at ostwng ôl troed carbon Casnewydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at Amcan 3 a'r ymrwymiad tymor-hir i gynnal mannau gwyrdd - croesawodd waith y BGC i ofalu bod hyn yn digwydd. Yr oedd yn falch fod Casnewydd wedi ei chydnabod fel dinas gyfeillgar i wenyn, ac y mae'r swyddog bioamrywiaeth yn gweithio gydag ysgolion i annog diddordeb plant yn hyn. Mae'r ymgyrch cerdded i'r ysgol yn mynd yn dda, a chafwyd canlyniadau gwych yn ysgol gynradd Dewi Sant. Bwriad y Cyngor yw bod yn garbon niwtral erbyn 2030 a rhan o'r ymrwymiad hwnnw yw gweithio gyda chwmnïau ynni cydweithredol. Croesawodd hefyd y pwyntiau gwefru trydan sy'n cael eu gosod ledled y ddinas gan Wasanaethau'r Ddinas i helpu'r trigolion i leihau eu hôl troed carbon.

Canmolodd y Cynghorydd Giles y Gwasanaeth Addysg am eu llwyddiannau mawr. Mae ysgolion uwchradd yn gwneud yn well na'r disgwyl, ysgolion cynradd yn llwyddo, y bwlch rhwng grwpiau lleiafrifol yn cau. Cyfeiriodd at y newidiadau sylweddol ers mis Chwefror, yn enwedig y symud mawr at dechnoleg. Yr oedd y cyngor wedi darparu mannau gofal plant, talebau bwyd, a1300 o ddyfeisiadau i blant ysgol. Cyfeiriodd at y nodau adfer yn yr adroddiad ac amlygu llwyddiant ysgolion o ran cynnal cyfraddau presenoldeb da iawn: 93.9% mewn ysgolion uwchradd, 94.8% mewn ysgolion cynradd, 92.4% i'r sawl sy'n cael prydau ysgol am ddim, ac y mae gwaith yn mynd rhagddo i godi'r canrannau hyn.

Croesawodd y Cynghorydd Mayer yr adroddiad a dweud ei fod yn falch fod llawer o'i bortffolio yn ymdrin â meysydd sydd yn galluogi'r holl wasanaethau eraill i redeg yn llwyddiannus, yn enwedig TG a'r hybiau cymunedol.

Soniodd yr Arweinydd am y gwaith digidol yn y Cyngor a'r ymrwymiad sydd wedi galluogi'r swyddogion a'r aelodau i weithio o gartref mor gyflym er mwyn parhau i gyflwyno gwasanaethau hanfodol.

Croesawodd y Cynghorydd Harvey gyflwyno bysus trydan gan Drafnidiaeth Casnewydd fydd yn helpu i leihau allyriadau a helpu Casnewydd i leihau ei ôl troed carbon.

Canmolodd y Cynghorydd Cockeram y gwasanaethau cymdeithasol am bopeth a wnaethant, yn arbennig menter Babi a Mi - menter wych a ddechreuodd 2/3 mlynedd yn ôl mewn partneriaeth â Barnardos; mae Llywodraeth Cymru yn awr yn gobeithio cyflwyno'r fenter hon ledled Cymru. Cyfeiriodd hefyd at Rose Cottage lle'r oedd gweithiwr cymdeithasol wedi profi'n bositif am Covid-19, a bod aelod o'r staff a chydweithwyr eraill wedi cytuno i aros yn y bwthyn i hunan-ynysu am bythefnos - gweithred anhunanol oedd i'w chanmol yn fawr.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rahman at Amcan 4, a thudalen 64 yr adroddiad, Rheoli Asedau, yn enwedig trosglwyddo asedau cymunedol triongl Maendy, fydd o les mawr i'r gymuned. Fel pencampwr BAME y Cyngor, yr oedd yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud i hyrwyddo amrywiaeth yn y gweithle a chydraddoldeb yn y gymuned, er bod lawer eto i'w wneud.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Prif Weithredwr i ddweud gair; adleisiodd hi sylwadau Aelodau'r Cabinet, a dweud ei bod yn falch o'r hyn a gyflawnwyd yn 2019/20 ac i weld nifer o brosiectau a rhaglenni a gychwynnwyd ar ddechrau'r cynllun yn dwyn ffrwyth.

Croesawodd yr Arweinydd sylwadau ei chydweithwyr yn y Cabinet a chadarnhau'r adroddiad i'w gyhoeddi.

**Penderfyniad:**

Pleidleisiodd a chytunodd y Cabinet yn unfrydol â'r adroddiad ac i'w gyhoeddi, a chaiff ei ddarparu hefyd yn Gymraeg.

5 **Chwarter adroddiad risg 1 (2020/21)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad i'r Cabinet ar Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor am ddiwedd Chwarter 1 (30 Mehefin 2020).

Y mae'r adroddiad yn gofyn i'r Aelodau ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi'r newidiadau i'r risg.

Mae Polisi Rheoli Risg a Chofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor yn galluogi'r weinyddiaeth hon a'i swyddogion i fod yn effeithiol wrth nodi, rheoli a monitro'r risgiau hynny a allai atal y Cyngor rhag cyflawni ei amcanion yn y Cynllun Corfforaethol (2017-22) a chyflawni ei ddyletswyddau statudol fel awdurdod lleol.

Cadarnhaodd yr adroddiad y cyflwynir adroddiad risg Chwarter 1 hefyd i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor yn Hydref 2020 i adolygu proses rheoli risg a threfniadau llywodraethiant y Cyngor.

Ar derfyn chwarter 1, yr oedd y Gofrestr Risg Corfforaethol yn cynnwys 19 risg yr oedd angen i'r Cabinet a Thîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor eu monitro. Mae pob risg arall yn cael eu monitro trwy feysydd gwasanaeth y Cyngor a'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae mecanweithiau ar waith i anfon unrhyw risg newydd neu sy'n bod eisoes i'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

Yn chwarter 1 yr oed 13 risg ddifrifol (sgoriau risg 15 i 25); 4 risg fawr (sgoriau risg 7 i 14) a 2 risg gymedrol (sgoriau risg 1 i 3).

Yr oedd saith risg wedi aros ar yr un sgôr risg â chwarter 4.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y canlynol:

**Risgiau Newydd/Wedi eu cyfeirio**

- Yn chwarter 1, yr oedd un risg newydd (Clefyd Marwolaeth yr Ynn) a phum risg a gyfeiriwyd o gofrestri risg meysydd gwasanaeth.

- **Pwysau ar Wasanaethau Oedolion a Chymuned (Risg wedi'i Chyfeirio, cynnydd yn y sgôr risg o 16 i 20)** Mae COVID-19 wedi cynyddu'r pwysau ar gyllid a chynaliadwyedd tymor hir gofal oedolion, ac y mae gwasanaethau yn gorfod ail-lunio eu hunain i wneud lle i ganllawiau COVID-19. Mae'r rhain hefyd yn cael effaith ar ganfyddiad a chyflwyno gwasanaethau.

- **Pwysau ar gyflwyno Gwasanaethau Plant (Risg wedi'i Chyfeirio, cynnydd yn y sgôr risg o 16 i 20)** Mae COVID-19 wedi achosi cynnydd mewn pwysau o ran cwantwm y gwaith a'i natur, ynghyd â'r effaith ar y staff gyda newid mewn cymdeithas. Mae ymdrechion i leihau'r risg yn dibynnu ar gynnal cysylltiad a lleihau tasgau sy'n debyg o gynyddu yn ystod y flwyddyn.

- **Seibr-ddiogelwch (Risg wedi'i Chyfeirio, cynnydd yn y sgôr risg o 12 i 16)** yn chwarter , hysbyswyd cyrff y sector cyhoeddus o godi lefel bygythiad i'r DU o ran ymgais i geisio mynediad at ddata a ddelir gan lywodraeth ganol a lleol. Mae hyn wedi cynyddu hefyd wrth i fwy o bobl weithio o gartref.

- **Pwysau ar Wasanaeth Digartrefedd (Risg wedi'i Chyfeirio, cynnydd yn y sgôr risg o 12 i 16)** Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth statudol newydd i gefnogi'r digartref a chysgwyr allan i lety. Darparodd  Llywodraeth Cymru gyllid cam 1 i'r Cyngor ac yn ddiweddar, derbyniwyd cyllid cam 2 i barhau â'r gefnogaeth hon.

- **Pwysau ar y Gwasanaeth Tai (Risg wedi'i Chyfeirio, cynnydd yn y sgôr risg o 12 i 16** effeithiwyd ar gyflwyno'r gwasanaeth tai gan y ddeddfwriaeth statudol am y digartref, cysgwyr allan a'r mwyaf bregus. Hefyd, oherwydd y sefyllfa economaidd fregus a diwedd y cynllun ffyrlo ym mis Hydref, fe all fod mwy o bwysau i roi cymorth i drigolion a all wynebu colli eu swyddi a/neu ostyngiad yn eu cyflogau.

Gwahoddodd yr Arweinydd Aelodau'r Cabinet i wneud sylwadau:

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jeavons at Glefyd Marwolaeth yr Ynn (Risg Newydd, Sgôr 20) a chadarnhaodd fod adolygiad gan Wasanaethau'r Ddinas  o goed ym mherchenogaeth y Cyngor wedi nodi rhyw 8,600 o goed ynn oedd yn dioddef o Glefyd Marwolaeth yr Ynn neu oedd mewn perygl o'i gael. Mae'r sgôr risg yn adlewyrchu'r gost uchel a'r brys i dorri'r coed cyn iddynt gwympo a pheri difrod. Nodwyd fod gan Gasnewydd lawer mwy o'r coed hyn nag sydd gan awdurdodau eraill.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Cockeram at y pwysau enfawr ar wasanaethau cymdeithasol yn enwedig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae gofal cartref hefyd yn bryder gyda chyflogau isel a chadw staff.  Mae cartrefi preswyl yn bryder arall, oherwydd er bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn rhoi cymhorthdal i'r sector hwn; os aiff y cartrefi hyn yn fethdalwyr, caiff effaith ar y gwasanaethau.  Cyfeiriodd hefyd at y risg ariannol sy'n gysylltiedig â gwario ar fyw gyda chefnogaeth pan ddaw plant yn oedolion. Mae pwysau ariannol ar y Gwasanaethau Plant hefyd yn bwysau gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau atal plant rhag mynd i ofal. Mae'r gwasanaethau hyn oll yn ddyletswyddau statudol.

Dywedodd y Cynghorydd Mayer mai'r risg fwyaf yn ei bortffolio yw bygythiad seibr-ddiogelwch.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at weithio ystwyth; y budd yw'r effaith enfawr o ran lleihau ein hôl troed carbon; rhaid gwneud gwaith yn awr i gynnal hyn.

Soniodd y Cynghorydd Rahman fod angen gwneud gwaith yn awr ar y modd mae'r Cyngor yn defnyddio ei adeiladau yn y dyfodol, a dal i roi safon aur o wasanaeth i drigolion Casnewydd.

Soniodd yr adroddiad hefyd at newid cyfeiriad rhai o'r sgoriau risg y cyfeirir atynt ar dudalen 73 yr agenda.

Ceisiodd yr Arweinydd gytundeb y Cabinet am gynnwys Adroddiad Risg Chwarter 1 a pharhau i fonitro cynnydd y camau a gymerwyd i leihau effeithiau'r risg yn yr adroddiad.

**Penderfyniad:**

Pleidleisiodd a chytunodd y Cabinet yn unfrydol â'r adroddiad ac i barhau i fonitro'r camau a gymerir i leihau effaith y risgiau a nodir yn yr adroddiad.

6 **Polisi tâl a gwobrwyo**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn cadarnhau fod Polisi Tâl a Gwobrwyo'r Cyngor i'r gweithlu yn adroddiad blynyddol sydd angen ei fabwysiadu gan y Cyngor. Mae'r polisi yn gosod allan y mecanweithiau mewnol am dalu swyddogion y Cyngor ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer unrhyw newidiadau ers ei fabwysiadu ddiwethaf.

Dau newid arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad yw:

- Yn gyntaf, gwneud i ffwrdd â'r lwfans bloc ceir i Brif Swyddogion fydd yn newid y ffordd o gael treuliau milltiredd a bydd hyn yn dod â Phrif Swyddogion yn unol â gweddill y gweithlu sy'n gorfod hawlio am y siwrneiau maent yn wneud yn hytrach na derbyn tâl sefydlog.
- Yn ail, cyfyngu ail-gyflogi i'r sawl sy'n cymryd diswyddo gwirfoddol neu gytundebau setlo. Byd hyn yn golygu bod arian cyhoeddus tuag at becynnau gwahanu yn cael ei gymhwyso'n briodol ac y gwneir diwydrwydd dyladwy trylwyr am strwythurau staffio cyn cytuno ar unrhyw becynnau gwahanu.

Yn ychwanegol at y cynigion hyn, mae'r Polisi Tâl a Gwobrwyo yn adrodd am y bwlch tâl blynyddol rhwng y rhywiau sydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Cadarnhaodd yr adroddiad fod y bwlch cymedrig wedi gostwng o 3.6% o'r 4.8% yr adroddwyd amdano. Yr oedd yr Arweinydd yn falch o adrodd fod y bwlch cymedrig bellach wedi cau, gan fod dadansoddiad o'r data yn dangos fod pwynt cymedrig y tal fesul awr yr un fath i ddynion a menywod. Mae bwlch tâl y Cyngor rhwng y rhywiau yn cymharu'n ffafriol â chynghorau eraill ledled Cymru a chyfartaledd y DU o 17%.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd y Cyngor yn parhau i adolygu a monitro eu bwlch tâl rhwng y rhywiau i ddod o hyd i ffyrdd o gau'r bwlch tâl cymedrig trwy'r amcanion a gyhoeddir yn yr adroddiad blynyddol am y bwlch tâl rhwng y rhywiau a thrwy gynnal ail archwiliad tâl cyfartal yn 2021 i nodi unrhyw feysydd gwella pellach.

Yr oedd yr adroddiad eisiau i'r Cabinet gymeradwyo'r polisi i'w argymell i'r Cyngor.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Gymuned ac Adnoddau i siarad am yr adroddiad a chadarnhaodd fod y Polisi Tâl a Gwobrwyo blynyddol yn rhoi cyfle i gyhoeddi bwriad y Cyngor am dâl ei swyddogion a gwneud unrhyw newidiadau priodol. Cadarnhaodd yr ymgynghorwyd a chynrychiolwyr undebau llafur y Cyngor am y ddau newid arfaethedig

uchod, ac y mae eu hadborth yn yr adroddiad; felly hefyd asesiad o'r effaith y gall y bwriad i gyfyngu ail-gyflogi ar Degwch a Chydraddoldeb gael.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod y Cabinet eisoes wedi ymrwymo i dalu ychwanegiad i'r gweithwyr ar y cyflogau isaf er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn cyflog sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw Gwirioneddol, ac y mae'r polisi yn cadarnhau y parheir i dalu'r ychwanegiad hwn.

Ategodd yr Aelod Cabinet sylwadau'r Arweinydd am y bwlch tâl rhwng y rhywiau a'r cynnydd a wnaed yn adroddiad 2019; yr oedd yn falch fod yr adroddiad yn dweud nad oes bwlch tâl rhwng menywod a dynion wrth gymharu'r gyfradd gymedrig fesul awr, a gostyngiad o 4.8% i 3.6% wrth gymharu cymedr y gyfradd fesul awr. Cred yr Aelod Cabinet fod hyn yn dangos cynnydd da i ddileu'r bwlch yng Nghyngor Dinas Casnewydd ac argymhellodd y polisi i'r Cabinet.

**Penderfyniad:**

Pleidleisiodd a chytunodd y Cabinet yn unfrydol â'r adroddiad ac iddo gael ei ddwyn at y Cyngor i'w fabwysiadu'n ffurfiol.

7 **SRS canolfan ddata**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn cadarnhau, yn dilyn argymhellion y Grŵp Adolygu Craffu yn 2016, fod y Cabinet wedi cytuno i ymuno â'r Cyd-Wasanaeth Adnoddau (CWA) a throsglwyddo gwasanaeth TG y Cyngor i'r bartneriaeth hon gydag awdurdodau Torfaen, Sir Fynwy a Blaenau Gwent, a Heddlu Gwent.

Yr oedd unarddeg o flaenoriaethau buddsoddi yn tynnu sylw at y gwelliannau pwysig y dymuna Casnewydd gael o'r trefniant hwn; dyma'r gofynion craidd:

- datblygu gwasanaeth TG sy'n ymatebol ac yn gwella'n barhaus;
- rhesymoli systemau ar draws y bartneriaeth;
- datblygu staff yn barhaus ac o ansawdd uchel;
- seilwaith TG sy'n rhoi gwytnwch ac ansawdd gwasanaeth;
- datblygu trefniadau parhad busnes ac adfer o drychineb gan gynnwys cefnogaeth y tu allan i oriau fel sy'n briodol;
- cefnogi cyflwyno nodau digidol fel y'u hamlinellwyd yn Strategaeth Ddigidol Cyngor Dinas Casnewydd.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi yn eu darpariaeth TG. Golyga hyn, pan ddechreuodd y cyfnod clo, fod gan y Cyngor eisoes y gallu i ganiatáu i'w staff a'r Aelodau barhau i weithio er nad oeddent yn eu man gwaith arferol.

Ers ymuno â'r CWA bu gwelliannau i'r offer TG a'r systemau cefnogi. Mae'r bartneriaeth wedi datblygu systemau newydd ar y cyd, megis y CRM, ac wedi cyflwyno Office 365. Er fod bod yn rhan o bartneriaeth ehangach wedi helpu'r Cyngor i wella ei gwasanaeth, diolchodd yr Arweinydd i Dîm Digidol mewnol y Cyngor am y gwaith a wnaethant i wella perfformiad yn gyson, a galluogi'r Cyngor i wneud y mwyaf o'i fuddsoddiad.

Dywedodd yr adroddiad, er mwyn cwrdd â'r amcanion o gael seilwaith TG cadarn a gwelliannau i barhad busnes, y cynllun oedd i symud y ganolfan ddata bresennol o'r Ganolfan Ddinesig i ganolfan ddata unswydd y CWA ym Mlaenafon. Fodd bynnag, yn dilyn gwerthuso pellach gan y CWA o'r costau i Gasnewydd a'r partneriaid eraill o barhau i weithio ym Mlaenafon, o gymharu â symud i ganolfan ddata unswydd fwy newydd fyth, barnwyd ei bod yn rhatach ar y cyfan i'r holl bartneriaid symud i ganolfan ddata newydd.

Mae'r achos busnes a ddatblygwyd gan y CWA yn cael ei gefnogi gan Fwrdd Cyllid a Llywodraethiant y Bartneriaeth ac y maent yn gwneud argymhelliad i Fwrdd Strategol y CWA i fwrw ymlaen( cynrychiolir y Cyngor ar y ddau Fwrdd gan lefel uwch-swyddogion ac Aelodau Cabinet). Mae'r Bwrdd Strategol newydd gytuno i hyn, a gofynnir i Gabinet pob awdurdod lleol yn y bartneriaeth i gymeradwyo.

Mae'r adroddiad yn rhoi costau refeniw a chyfalaf y symud. Nododd yr adroddiad y byddai symud y ganolfan ddata i sicrhau gwytnwch yn unol â phenderfyniad gwreiddiol y Cabinet yn wastad wedi golygu cost, boed hyn yn symud i ganolfan ddata bresennol y CWA neu i le newydd.

Cadarnhaodd yr adroddiad y bydd symud yr holl bartneriaid i'r adeilad newydd yn cymryd hyd at dair blynedd, a bryd hynny y bydd mwy o gost refeniw i Gasnewydd. Fodd bynnag, mae hyn wedi ei ragweld ac y mae o fewn y CRTC, felly hefyd y gyllideb am gyfoesi'r ganolfan ddata yn gyson, fydd ei angen bob ryw bum mlynedd. Nodwyd fod modd gwneud iawn yn rhannol am y gost refeniw ychwanegol trwy gostau ynni is yn y Ganolfan Ddinesig. Yr oedd yr Arweinydd yn falch o adrodd y bydd hyn hefyd yn cefnogi cynlluniau'r Cyngor i leihau carbon a bydd gostyngiad o ryw 92 tunnell y flwyddyn mewn carbon o ganlyniad i ddefnyddio llai o ynni yn y Ganolfan Ddinesig.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod y gwariant cyfalaf sydd ei angen o fewn y cynllun cyfalaf presennol am adnewyddu TG ac na fydd yn effeithio ar y gallu i sicrhau gwytnwch gweddill y seilwaith craidd sydd ei angen i weithredu yn gyffredinol.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Gymuned ac Adnoddau i siarada am yr adroddiad, ac fel cynrychiolydd y Cabinet ar Fwrdd Strategol y CWA, cadarnhaodd ei fod yn llawn gefnogi'r cynnig hwn. Dywedodd fod diogelu systemau a data a'u gwneud yn addas at y dyfodol yn hanfodol bwysig gan ein bod oll wedi dod i ddibynnu ar seilwaith TG a digidol, yn fwy fyth felly ers mis Mawrth a'r cyfnod clo. Cadarnhaodd, o fewn pedwar diwrnod o gyhoeddi'r clo, fod 1200 o staff y cyngor wedi eu galluogi i weithio o gartref.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol yn hyn o beth, sef dod yn Gyngor wedi moderneiddio, gyda digidol yn ddiofyn, ac i greu Hwb Gwybodaeth Casnewydd, fel bod gan y Cyngor well mynediad at wybodaeth i gefnogi ei waith. Cred yr Aelod Cabinet fod y ffordd yr ymatebodd y Cyngor i'r clo mewn byr amser yn brawf ein bod wedi dod yn Gyngor wedi moderneiddio.

Mae symud y ganolfan ddata i leoliad modern a godwyd yn unswydd yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd. Mae hefyd yn fan cychwyn cadarn i gyflawni'r uchelgais o 'gwmwl trwy ddiofyn' - symud o adeiladau i atebion yn y cwmwl. Bydd hyn yn gwneud y Cyngor yn fwy hyblyg ac yn sicrhau parhad busnes. Mae'r daith eisoes wedi dechrau gyda rhai o'r systemau mwyaf eisoes yn cael eu cynnal neu yn y cwmwl - AD a Chyflogres, CRM, WCCIS ac e-byst ymysg rhai esiamplau.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r CWA am eu cefnogaeth ac i'r Tîm Digidol mewnol sydd wedi ymateb yn wych i'r her o gefnogi amrywiaeth o wasanaethau sydd yn awr yn rhedeg yn rhithiol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelod Cabinet a dweud fod gwaith Hwb Gwybodaeth Casnewydd yn dra gwerthfawr; canmolodd arweiniad ac arbenigedd Rheolwr Hwb Gwybodaeth Casnewydd, Shaun Powell, sy'n parhau i roi gwasanaeth rhagorol mewn ymateb i Covid-19.

**Penderfyniad:**

Pleidleisiodd a chytunodd y Cabinet yn unfrydol â'r adroddiad

8 **Rhif Rhadolwg (LAC)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad sy'n cadarnhau fod y Gwasanaethau Plant yn dal i weithio i gefnogi plant a theuluoedd. Mae'r staff yn gweithio i sicrhau y gofelir am blant yn ddiogel yn eu teuluoedd, ac os nad yw hyn yn bosib, eu bod yn derbyn gofal ac yn cael y cyfleoedd gorau posib.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod Llywodraeth Cymru yn dal i ganolbwyntio ar leihau niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Yng Nghasnewydd mae nifer y plant yng ngofal cyffredinol yr awdurdod lleol wedi aros yn sefydlog. Mae plant yn dal i ddod i ofal, ond y maent hefyd yn gadael gofal, naill ai ddychwelyd at eu teuluoedd neu i'w gosod i'w mabwysiadu, neu am eu bod yn 18 oed. Ers adrodd i'r Cabinet ym mis Mai 2019, mae'r swyddogion wedi parhau i roi adroddiadau rheolid yn ôl gofynion Llywodraeth Cymru. Ers mis Mawrth 2020 mae hyn wedi cynnwys adrodd yn wythnosol.

Dywed yr adroddiad fod staff wedi gweithio'n ddiflino ers dechrau Covid-19 ac wedi parhau i gyflwyno gwasanaethau llawn. Mae cyfeiriadau wedi cynyddu, a'r pwysau ar deuluoedd o raid wedi dod yn drymach

Mae llawer o fentrau newydd a gyflwynwyd gan y Gwasanaethau Plant ac a gyllidir gan grantiau Llywodraeth Cymru ac adnoddau'r ALl yn gweithio'n dda, er enghraifft:

- Cynadleddau Grŵp Teulu
- Cefnogaeth Babi a Mi i deuluoedd.

Nodwyd hefyd fod staff o amrywiaeth o asiantaethau yn rhan o gefnogi teuluoedd bregus ac y mae staff y Gwasanaethau Plant yn rhannu arferion ac yn gweithio i ddiwylliant o reoli risg yn ddiogel i blant.

Yr oedd yr Arweinydd, ynghyd â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a'r swyddogion, yn siomedig iawn i dderbyn llythyr gan y Dirprwy Weinidog gyda naws mor negyddol, gan nad yw gwaith yr 8 mis a aeth heibio yn adlewyrchu'r heriau cynyddol a wynebir gan deuluoedd, na'r gwaith ar draws pob asiantaeth i liniaru rhai o'r pwysau hynny. (Er gwybodaeth, gellir gweld y llythyr fel atodiad i'r adroddiad).

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol i siarad am yr adroddiad:

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y llythyr a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ac er ei fod yn deall eu hagwedd, yr oedd yn cadarnhau fod gan y Cyngor ddyletswydd o ofal i sicrhau bod plant yn ddiogel. Cyfeiriodd at dudalen 153 yr adroddiad sy'n rhoi manylion am nifer y plant sy'n derbyn gofal dros y 18 mis diwethaf; cadarnhaodd fod yn niferoedd ar hyn o bryd yn eithaf sefydlog.

Canolodd waith caled y swyddogion y Gwasanaethau Plant sy'n ymdrechu'n wastad i ofalu fod plant a theuluoedd yn ddiogel. Er nad yw gosod targedau yn wastad o gymorth, mae'r staff wedi parhau i weithio ar draws y Gwasanaethau Plant ac asiantaethau eraill i ddwyn plant i ofal yn unig pan fydd hyn yn hollol angenrheidiol.

Yr oedd yn falch o adrodd, dros y ddwy flynedd a aeth heibio, fod y Cyngor wedi gwneud y canlynol:

- agor Rose Cottage – a enwebwyd am Wobr Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol,
- cynyddu'n sylweddol y gefnogaeth i ofalwyr maeth,
- ar fin agor Rosedale ac yn symud ymlaen gyda Fferm Windmill.

- yn 2019/20, cymeradwyo 6 aelwyd newydd fel gofalwyr maeth. Eisoes yn 2020/21 wedi cymeradwyo 13 aelwyd, a mwy yn cael eu hasesu ar hyn o bryd. Mae hyn o ganlyniad i fwy o gefnogaeth ariannol ac ymgyrch recriwtio gynhwysfawr.

Adroddodd fod y Gweinidog wedi cyhoeddi y bydd mwy o arian ar gael i blant sy'n derbyn gofal, ond nad yw'r ffigwr wedi ei gadarnhau eto.

Dywedodd yr Aelod Cabinet tra bod pwyslais Llywodraeth Cymru ar leihau, gwaith y Gwasanaethau Plant yw cefnogi teuluoedd yn ddiogel, ac er mai dewis olaf un yw mynd i ofal, mae'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn rhoi'r gofal gorau posib pan gyfyd yr angen.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Sally Jenkins, i ddweud gair am yr adroddiad; cadarnhaodd mai'r ffigwr o blant sy'n derbyn gofal heddiw yw 378. Ategodd sylwadau'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet mai'r flaenoriaeth yw cadw plant yn ddiogel a chynnig y lefel orau bosib o ofal iddynt. Cadarnhaodd mai cymryd plant i ofal yw'r dewis olaf a bod hyn yn digwydd os nad oes dewis arall ar gael.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pennaeth Gwasanaeth a holl swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith caled a'u diwydrwydd.

**Penderfyniad:**

Pleidleisiodd a chytunodd y Cabinet yn unfrydol â'r adroddiad

9 **LDP adroddiad blynyddol ac adolygiad**

10 **Covid-19: Effaith Ariannol**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad sy'n rhoi cyfoesiad am y cynnydd a wnaed gan Gyngor Casnewydd a'i bartneriaid i gefnogi'r ddinas i gydymffurfio â'r mesurau clo lleol a chefnogi cymunedau Casnewydd fel rhan o Nodau Adfer Strategol y Cyngor.

Ym mis Mehefin, yr oedd y Cabinet wedi cefnogi'r pedwar Nod Adfer Strategol sy'n cynnal cyflwyno Amcanion Lles y Cyngor ond hefyd yn sicrhau y gall gwasanaethau'r Cyngor ddychwelyd yn ddiogel a rheoli digwyddiadau o glefydau yn y dyfodol.

Nododd yr adroddiad:

- Ers yr adroddiad diwethaf, fod mesurau clo lleol wedi eu rhoi ar waith i reoli a lleihau lledaeniad Covid-19 yn y ddinas yn dilyn cynnydd sylweddol mewn achosion.
- Ers i'r cyfyngiadau gael eu gosod, bu Cyngor Casnewydd yn defnyddio ei holl ddulliau cyfathrebu i atgoffa trigolion a busnesau i gadw atynt.
- Trwy gydol y cyfnod hwn, bu tîm ymateb brys y Cyngor (Covid Aur) yn goruchwylio cyflwyno gweithgareddau strategol y Cyngor a'r Grŵp Cydgordio Strategol ehangach.
- Mae Cyngor Casnewydd hefyd wedi cyflwyno Timau Rheoli Digwyddiadau i reoli achosion fydd yn digwydd yn y gymuned ac i gefnogi system Profi, Olrhain ac Amddiffyn (POA) y ddinas.
- Ar hyn o bryd, erys Covid-19 yn y ddinas a bydd felly am weddill y flwyddyn. Oherwydd hyn, rhaid i ni aros yn wyliadwrus ond hefyd yn hyblyg i gefnogi unrhyw gamau angenrheidiol a hefyd i gefnogi cymunedau ledled y ddinas.
- Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at ymateb y Cyngor ar draws pob maes gwasanaeth gan gynnwys cydweithio gyda phartneriaid y Cyngor ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, grwpiau cymunedol a phartneriaid y trydydd sector.

Nododd yr adroddiad hefyd y cynnydd a wnaeth y Cyngor yn erbyn y Nodau Adfer Strategol, a nodir ar dudalennau 326 a 327 yr agenda.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r holl staff am eu gwaith rhyfeddol trwy gydol y pandemig.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i bwysleisio i bawb mor bwysig oedd cadw at y rheolau. Apeliodd i'r cyhoedd, petai'r gwasanaeth Profi ac Olrhain yn cysylltu, i ddilyn y cyswllt hwnnw gan y buoch mewn cysylltiad â rhywun a brofodd yn bositif am covid-19. Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol, ac ni fydd pobl yn cael eu barnu, ond y mae'n gam pwysig i geisio atal y clefyd hwn.

Diolchodd yr Arweinydd i'r holl staff, partneriaid a chynghorwyr am gefnogi cymunedau a gwasanaethau.

Addawodd yr Arweinydd ddiweddariad pellach ar gynnydd y Cyngor yng nghyfarfod nesaf y Cabinet.

**Penderfyniad:**

Pleidleisiodd a chytunodd y Cabinet yn unfrydol â'r adroddiad

11 **Adroddiad diweddaru Brexit**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad am baratoadau'r Cyngor ar gyfer Brexit a'r trafodaethau masnach presennol rhwng Llywodraeth y DU a'r UE.

Ategodd yr adroddiad y wybodaeth roddwyd i gyfarfodydd blaenorol y Cabinet, sef bod y DU ar 31 Ionawr wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol a dod i gyfnod trosiannol i drafod trefniadau masnach a'r berthynas yn y dyfodol gyda'r UE.

Dros y naw mis diwethaf, bu'r wlad a'r Cyngor hwn yn canolbwyntio ar eu hymateb i Covid-19. Trwy gydol y cyfnod hwn, mae Llywodraeth y DU wedi parhau i drafod gyda'r UE. Erys canlyniadau'r trafodaethau hyn yn gryn risg i Gymru ac i Gasnewydd.

Mae gan Lywodraeth y DU a'r UE tan 31 Rhagfyr 2020 i ddod â'r trafodaethau i ben, a dywedodd Llywodraeth y DU yn gyhoeddus nad oes bwriad i ymestyn y trafodaethau y tu hwnt i'r dyddiad hwn.

Gyda llai na deufis ar ôl, mae risg yn awr y bydd y DU yn dibynnu ar dariffau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ac efallai y bydd angen rhoi gofynion rheoleiddio newydd ar waith i reoli trefniadau mewnforio ac allforio.

Ym Medi cyflwynodd Llywodraeth y DU Fesur y Farchnad Fewnol sydd yn gosod y rheolau ar gyfer gweithredu'r farchnad fewnol yn y DU rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi 31 Rhagfyr 2020.

Bydd y Mesur hwn yn rhoi mwy o ryddid i'r cenhedloedd datganoledig wrth osod polisïau, ond mae risgiau y ceir rhwystrau rheoleiddio newydd. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd wedi lleisio pryderon am y Mesur.

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad am y cynnydd a wnaed gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Brexit y Cyngor – mae crynodeb o hyn yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Yr oedd yr adroddiad am i'r Cabinet gytuno i gynnwys yr adroddiad ac i dderbyn diweddariadau rheolaidd wrth i gynnydd gael ei wneud trwy'r cyfnod trosi.

**Penderfyniad:**

Pleidleisiodd a chytunodd y Cabinet yn unfrydol â'r adroddiad ac i dderbyn diweddariadau rheolaidd wrth i gynnydd gael ei wneud trwy'r cyfnod trosi.

12 **Rhaglan Wraith**

Cyflwynodd yr Arweinydd Raglen waith y Cabinet.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y rhaglen wedi ei chyfoesi.

13 **Digwyddiad byw**